Fersiwn Hawdd ei Deall

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu




**Nodiadau o'r pumed cyfarfod ar 27 Mehefin 2023.**

**Roedd y cyfarfod yn Nhŷ Hywel ym Mae Caerdydd ac ar Zoom.**



## Pobl a ddaeth i'r cyfarfod

- **Sioned Williams AS** – Aelod o'r Senedd, Cadeirydd
- **Samantha Williams** – Anabledd Dysgu Cymru, Cyd-Ysgrifennydd
- **Sara Pickard** – Mencap Cymru, Cyd-Ysgrifennydd
- **Gwen Anslow** – Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan
- **Julie Bennett Doy** – Cyngor Sir Powys
- **Mariama Correia** – Prifysgol De Cymru
- **Nick Davies** – Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro
- **Pat Dunmore** – Cyngor ar Bopeth Abertawe Castell-nedd Port Talbot
- **William Fawcett**
- **Sarah Frost** – Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- **Iwan Good** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Ishbel Hansen** – Fforwm Rhieni a Gofalwyr Abertawe
- **Kai Jones** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Mark Jones** – Ffrindiau Gigiau Cymru

- **Nicholas Jones** – Mirus Cymru
- **Susan Kingman** – Hijinx
- **San Leonard** – Cwmnïau Cymdeithasol Cymru
- **Deborah Lomas** – rhiant
- **Marg McNeill** – SEE Around Britain
- **Catherine Meredith** – Cyngor Caerdydd
- **Nicki Morris** – Fforwm Cymru Gyfan
- **Lucy O'Leary** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Sian Owen**
- **Anne Phillips** – Canolfan Gofalwyr Abertawe
- **Joe Powell** – Pobl yn Gyntaf Cymru
- **Kathryn Price** – Prifysgol Caerdydd
- **Julie Reed** – Cyngor Caerdydd
- **Stacey Rees** – Prifysgol De Cymru
- **Simon Richards -** Pobl yn Gyntaf Cymru
- **Vincent Scaife** – Hft
- **Darren Smith**
- **Kelly Stuart** – Pobl yn Gyntaf Cymru
- **Cath Thornton** – Cyswllt Conwy ar gyfer Anableddau Dysgu
- **Nadine Tilbury** – Rhwydwaith Cydweithio â Rhieni (Prifysgol Bryste)
- **Stuart Todd** – Prifysgol De Cymru
- **Andy Ward** – Pobl yn Gyntaf Sir Fynwy
- **Lynne Whistance** – Grŵp pobl
- **Aled Williams** – Cyngor Caerdydd



## Pobl a ddywedodd nad oeddwn nhw'n gallu dod i'r cyfarfod

- **Wayne Crocker** – Mencap Cymru
- **Julian Hallet** – Cymdeithas Syndrom Down (Cymru)
- **Humie Webb**

## Gwybodaeth am y ddogfen hon




Fersiwn hawdd ei deall yw'r ddogfen hon. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n ei feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Gallai'r geiriau mewn **ysgrifen las trwm** fod yn anodd eu deall. Mae eglurhad ynghylch pob un o'r geiriau hyn wedi'i gynnwys mewn blwch o dan y gair. Gallwch weld beth yw ystyr yr holl eiriau **glas** ar **dudalen 19**.

## 1. Croeso a chyflwyniadau



Croesawodd **Sioned Williams**, Aelod o'r Senedd a **Chadeirydd** y Grŵp Trawsbleidiol, bawb i'r cyfarfod.

Cadeirydd y grŵp yw'r person sy'n arwain y cyfarfodydd.

## 2. Fideo Sara



**Sara Pickard** o Mencap Cymru yw **cyd-Ysgrifenydd** y grŵp.

Yr **ysgrifennydd** yw'r person neu'r sefydliad sy'n gyfrifol am drefnu'r grŵp. Er enghraifft, mae'n trefnu cyfarfodydd ac yn dosbarthu agendâu.

Ceir **cyd-ysgrifenyddion** pan fydd mwy nag un person yn rhannu rôl yr **ysgrifennydd**.



Fel rhan o Wythnos Anabledd Dysgu, fe ffilmiodd Sara fideo ar gyfer ITV Cymru am hanes pobl ag anabledd dysgu yng Nghymru dros y 40 mlynedd diwethaf.




Cyflwynodd Sara y fideo, ac yna fe wyliodd pawb yn y cyfarfod y fideo.





Dangoswyd y fideo hefyd ar un o raglenni ITV Wales, sef Sharp End, ar 19 Mehefin 2023. Fe allwch chi wylio'r rhaglen yma: [https://www.itv.com/walesprogrammes/articles/sharp-end-june-19th](https://www.itv.com/walesprogrammes/articles/sharp-end-june-19th)

# 3. Problemau gyda chael tocynnau bws newydd



Mae **Mark Jones** yn Gydlynydd Teithio gwirfoddol gyda phrosiect Ffrindiau Gigiau Cymru yng Ngogledd Cymru.

Dywedodd Mark wrth y grŵp am y problemau y mae rhai pobl anabl yn eu cael pan fyddant yn ceisio **adnewyddu** eu tocynnau bws.




Os oes yn rhaid **adnewyddu** eich tocyn bws, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi wneud cais amdano eto. Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o bobl **adnewyddu** eu tocyn bws bob ychydig flynyddoedd.



Roedd yn arfer bod yn eithaf hawdd **adnewyddu** eich tocyn bws gyda'ch cyngor lleol. Er enghraifft, gallech fod wedi anfon llythyr wrth eich meddyg, i ddweud bod gennych anabledd dysgu.

Ond nawr, Trafnidiaeth Cymru sy'n **adnewyddu** tocynnau bws pobl, yn lle cynghorau lleol.





Mae Trafnidiaeth Cymru yn dweud bod y rheolau ar gyfer **adnewyddu** tocynnau bws **ddim** wedi newid.



Ond mae llawer o bobl yn ei chael hi'n llawer anoddach **adnewyddu** eu tocynnau bws, erbyn hyn.




Mae Trafnidiaeth Cymru yn gofyn am lawer mwy o wybodaeth er mwyn **adnewyddu** tocynnau bws pobl.




Maen nhw'n dweud bod yn rhaid ichi gael digon o **Daliadau Annibyniaeth Bersonol** neu bwyntiau **PIP** .

Mae **Taliad Annibyniaeth Bersonol** neu **PIP** yn fudd-dal y gall rhai pobl anabl ei gael er mwyn helpu gyda'u bywydau bob dydd.




Mae rhai pobl sydd wedi cael tocyn bws ers amser yn cael gwybod, erbyn hyn, na allant gael tocyn bws, mwyach.



Mae hyn yn achosi staen mawr i bobl, ac yn eu gwneud yn bryderus ac yn ofidus iawn.




Mae tocynnau bws yn bwysig iawn i lawer o bobl sydd ag anabledd dysgu.




Heb eu tocyn bws, ni all llawer o bobl ag anabledd dysgu fynd i leoedd fel:


- Gwaith, coleg neu ysgol.
- Apwyntiadau meddyg neu ysbyty.
- Siopa.
- Gweld teulu a ffrindiau.



Bydd hyn yn mynd â'u hannibyniaeth oddi wrthynt, a bydd yn ddrwg i'w hiechyd meddwl.




Roedd gan Mark rai syniadau ar sut i wneud y broses o gael tocyn bws newydd yn well i bobl ag anabledd dysgu:




1. Gwneud y wybodaeth am sut i gael tocyn bws newydd yn haws ei deall.



2. Ei gwneud yn haws i bobl ag anabledd dysgu gael tocyn bws newydd, a rhoi mwy o amser iddynt wneud hynny. Er enghraifft, gadewch iddynt ddefnyddio llythyr gan eu meddyg yn dweud bod ganddynt anabledd dysgu.




3. Gwnewch i'r tocynnau bws bara'n hirach cyn bod yn rhaid eu **hadnewyddu**.


   Ni ddylai pobl ag anabledd dysgu orfod parhau i roi prawf bod ganddynt anabledd dysgu, bob ychydig flynyddoedd.



4. Gweithio gyda phobl anabl, eiriolwyr a sefydliadau pobl anabl i ddeall sut i'w gwneud yn haws i bobl gael tocyn bws.



Nesaf, dywedodd **Simon Richards** o Pobl yn Gyntaf Caerdydd y wrth y grŵp am y problemau a gafodd wrth geisio **adnewyddu** ei docyn bws.





Dywedodd Trafnidiaeth Cymru nad oedd ganddo ddigon o bwyntiau **PIP** i gael tocyn bws newydd.




Yna, dywedon nhw y dylai gael llythyr wrth ei feddyg teulu.




Roedd yn rhaid i Simon dalu am y llythyr gan ei feddyg teulu, ac fe gymerodd amser hir.




Dywedodd wrth Trafnidiaeth Cymru ei bod yn cymryd amser hir i gael y llythyr. Dywedon nhw y gallai barhau i ddefnyddio ei docyn bws tra roedd yn aros am y llythyr.




Ond wedyn, 1 diwrnod, ni wnaeth gyrrwr bws adael i Simon fynd ar y bws, oherwydd nad oedd ei docyn bws yn gweithio mwyach.



Fe wnaeth hyn yn i Simon deimlo straen mawr, a theimlo’n bryderus ac yn ofidus iawn.



Pan gafodd Simon y llythyr o'r diwedd gan ei feddyg teulu, anfonodd y llythyr at Trafnidiaeth Cymru. Fe ddywedon nhw y byddai ei gyngor lleol, wedyn, yn penderfynu a allai gael tocyn bws newydd ai peidio.



Bob tro roedd Simon yn ceisio ffonio ei gyngor lleol, dim ond peiriant ateb yr oedd yn ei gael.





Yna, aeth i'r llyfrgell am gymorth. Buont yn siarad â'r cyngor am ei docyn bws.




Dywedodd y cyngor na allai Simon ddefnyddio'r llythyr gan ei feddyg teulu i gael tocyn bws newydd. Roedd yn rhaid iddo gael ffurflen wedi'i llofnodi a'i stampio gan ei feddyg teulu yn lle hynny.




Roedd Simon yn poeni oherwydd nid oes gan y ffurflen unrhyw flychau i'w ticio i ddweud bod ganddo anabledd dysgu neu awtistiaeth.




Aeth â'r ffurflen at ei Feddyg Teulu i'w harwyddo a'i stampio, ond nid yw'n gwybod o hyd a fydd yn gallu cael tocyn bws newydd.





Gyda help ei staff cymorth, mae Simon hefyd wedi gwneud asesiad **PIP** arall.

Mae'n gobeithio y bydd ganddo ddigon o bwyntiau i gael tocyn bws newydd heb fod angen llythyr neu ffurflen gan ei feddyg teulu yn y dyfodol.



Cymerodd yr asesiad **PIP** amser hir ac roedd yn dipyn o straen. Mae Simon yn aros i glywed faint o bwyntiau **PIP** sydd ganddo yn awr.




Ni all Simon ddefnyddio ei docyn bws o hyd, felly os yw am fynd i unrhyw le, mae'n rhaid iddo dalu i fynd ar y bws.




Nid yw hyn yn hawdd oherwydd ar lawer o fysiau, mae'n rhaid defnyddio cerdyn neu ap i dalu.



Ar rai bysiau mae'n rhaid i chi dapio'ch cerdyn neu ap pan fyddwch chi'n mynd ar y bws, ac eto pan fyddwch chi'n dod oddi ar y bws. Mae hyn yn anodd iawn i bobl ag anabledd dysgu.




Mae hyn i gyd yn golygu na all Simon deithio cymaint ag yr arferai wneud, oherwydd ei fod yn costio gormod ac yn ormod o straen. Mae hyn yn ddrwg iawn i lesiant Simon.

## 4. Cwestiynau a syniadau



Ar ôl y cyflwyniad, gofynnodd rhai pobl gwestiynau, a rhannodd rhai eu syniadau.



Dywedodd **Joe Powell** o Pobl yn Gyntaf Cymru ei fod wedi clywed gan lawer o bobl ag anabledd dysgu sydd wedi cael trafferth cael tocyn bws newydd.




Dywedodd Joe ei bod yn anodd gwybod beth sy'n mynd o'i le.

Mae rhai pobl yn meddwl mai cynghorau lleol sy'n ei gwneud hi'n fwy anodd. Ond mae pobl eraill yn meddwl mai Trafnidiaeth Cymru sy'n ei gwneud hi'n fwy anodd.




Mae Trafnidiaeth Cymru yn dweud nad yw'r rheolau wedi newid. Felly, pam fod cymaint o bobl yn cael problemau, nawr, am y tro cyntaf?



Dywedodd Joe y dylem ni ofyn i Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anableddau Dysgu – neu LDMAG – i edrych ar y broblem hon hefyd.



Bydd Sioned yn ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Trafnidiaeth a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol am y problemau y mae pobl yn eu cael pan fyddan nhw'n ceisio **adnewyddu** eu tocynnau bws.

# 5. Canllawiau ar gefnogi rhieni ag anabledd dysgu



Fe wnaeth **Stacey Rees** o Brifysgol De Cymru siarad am ganllawiau newydd Llywodraeth Cymru ar gefnogi rhieni ag anabledd dysgu.




Mae Stacey yn **ymchwilydd** wnaeth weithio gydag ymchwilwyr eraill o Brifysgol De Cymru i ysgrifennu'r canllawiau newydd.


Mae **ymchwilydd** yn rhywun sy'n chwilio am wybodaeth newydd am rywbeth, er mwyn helpu pobl i wybod mwy amdano.



Mae'r canllawiau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gyda rhieni ag anabledd dysgu.



Mae plant gormod o rieni ag anabledd dysgu yng Nghymru yn cael eu rhoi mewn gofal.



Mae Llywodraeth Cymru eisiau i rieni ag anabledd dysgu gael gwell cymorth, fel y gallan nhw ofalu am eu plant yn ddiogel.



Siaradodd yr **ymchwilwyr** â:

- Rhieni ag anabledd dysgu.
- Gweithwyr cymdeithasol.
- Rheolwyr gwaith cymdeithasol.



Gofynnodd yr **ymchwilwyr** iddyn nhw sut yr oeddent yn meddwl y gellid cefnogi rhieni ag anabledd dysgu yn well i ofalu am eu plant.

Fe wnaeth yr **ymchwilwyr** ddarganfod bod pobl wedi siarad am 4 peth pwysig:



- Parch at hawliau pobl.
- Canolbwyntio ar y teulu.
- Edrych ar yr hyn y gall pobl ei wneud – nid dim ond yr hyn na allant ei wneud.
- Rhoi cymorth a chefnogaeth i bobl cyn gynted â phosibl.



Mae'r **ymchwilwyr** hefyd wedi canfod llawer o ffyrdd y gall gweithwyr cymdeithasol helpu i gefnogi rhieni ag anabledd dysgu.



Rhai o'r pethau pwysig y daethant o hyd iddynt yw:

- Sicrhau bod rhieni yn gallu deall yr holl wybodaeth sydd angen iddynt wybod.
- Dylai fod gan rieni eiriolwr i'w cefnogi, yn enwedig pan fydd yn rhaid iddynt fynd i'r llys.
- Dylai gwasanaethau cymdeithasol plant a gwasanaethau cymdeithasol oedolion gydweithio i gefnogi'r teulu.
- Mae angen hyfforddiant ar weithwyr cymdeithasol ar weithio gyda rhieni ag anabledd dysgu.




Rhoddodd yr **ymchwilwyr** yr holl syniadau da am sut i gefnogi rhieni ag anabledd dysgu yn y canllawiau newydd.




Gallwch ddarllen y canllawiau newydd, a gwybodaeth hawdd ei darllen i rieni, ar wefan Llywodraeth Cymru yma: https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-gweithwyr-cymdeithasol-syn-gweithio-gyda-theuluoedd-ble-mae-gan-y-rhiant?fbclid=IwAR1k0cDirFe4ZI13T-WTFQBkoKK6l-GKG9yRVuQ9oaHpxXf_Q0P0mXU6trU

## 6. Cwestiynau a syniadau




Ar ôl y cyflwyniad, gofynnodd rhai pobl gwestiynau, a rhannodd rhai eu syniadau.



Dywedodd **Paul Hunt** o Mencap Cymru fod problemau hefyd gyda'r ffordd y mae rhieni ag anabledd dysgu yn cael eu **asesu**.

Mae **asesu** yn golygu sut mae gweithwyr cymdeithasol yn gwneud yn siŵr beth y mae'r rhieni'n ei ddeall, a'r hyn y maen nhw'n cael neu ddim yn cael ei wneud.



Dywedodd Stacey fod hyn yn rhywbeth sydd angen ei newid. Mae angen hyfforddiant ar weithwyr cymdeithasol ar wahanol ffyrdd o **asesu** rhieni ag anabledd dysgu.

## 7. Unrhyw fater arall, a syniadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol




Diolchodd Sioned i bawb a siaradodd yn ystod y cyfarfod.



Os oes gan unrhyw un syniadau am bethau pwysig i'w trafod yn y cyfarfod nesaf, gallwch anfon neges e-bost at Sam Williams: samantha.williams@ldw.org.uk; neu Sara Pickard: SaraE.Pickard@mencap.org.uk.




Bydd y cyfarfod nesaf ym mis Medi. Byddwn yn anfon y dyddiad i bawb cyn hir.




Gallwch ddod o hyd i holl agendâu'r Grŵp Trawsbleidiol, ynghyd â'r holl nodiadau ynghylch ei gyfarfodydd, yma: https://www.ldw.org.uk/cy/project/grwp-trawsbleidiol-ar-anabledd-dsygu/

# Geiriau anodd

**Cadeirydd**
Cadeirydd y grŵp yw'r person sy'n arwain y cyfarfodydd.

**Ysgrifennydd** neu **gyd-ysgrifenydd**
Yr ysgrifennydd yw'r person neu'r sefydliad sy'n gyfrifol am drefnu'r grŵp. Er enghraifft, mae'n trefnu cyfarfodydd ac yn dosbarthu agendâu.

Ceir cyd-ysgrifenyddion pan fydd mwy nag un person yn rhannu rôl yr ysgrifennydd.

**Adnewyddu**
Os oes yn rhaid adnewyddu eich tocyn bws, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi wneud cais amdano eto. Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o bobl adnewyddu eu tocyn bws bob ychydig flynyddoedd.

**Taliad Annibyniaeth Personol** neu **PIP**
Mae Taliad Annibyniaeth Bersonol neu PIP yn fudd-dal y gall rhai pobl anabl ei gael er mwyn helpu gyda'u bywydau bob dydd.

**Ymchwilydd**
Mae ymchwilydd yn rhywun sy'n chwilio am wybodaeth newydd am rywbeth, er mwyn helpu pobl i wybod mwy amdano.

**Asesu**
Mae asesu yn golygu sut mae gweithwyr cymdeithasol yn gwneud yn siŵr beth y mae'r rhieni'n ei ddeall, a'r hyn y maen nhw'n cael neu ddim yn cael ei wneud.